



Eich barn chi – Ein hymateb ni

Crynodeb o Arolwg Rhanddeiliaid
y Ganolfan Treialon Ymchwil 2021

Canlyniadau Arolwg Rhanddeiliaid

Mae Arolwg Rhanddeiliaid y Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR), a gynhelir bob dwy flynedd, yn rhan allweddol o strategaeth y Ganolfan i wella, meithrin a datblygu perthynas â'r holl rhanddeiliaid.

Roedd yr 80 o ymatebwyr i arolwg 2021 yn cynnwys 64 (80%) o grwpiau rhanddeiliaid â blaenoriaeth sy'n greiddiol i lwyddiant y Ganolfan, megis prif ymchwilwyr, cydweithredwyr, cyllidwyr, aelodau o'r cyhoedd, noddwyr ac ati, ond hefyd 16 (20%) nad ydynt eto wedi gweithio gyda'r Ganolfan yn uniongyrchol, sy'n grŵp pwysig i'n helpu i ddeall meysydd o gyfleoedd a rhwystrau posibl i ymgysylltu.

Yn gyffredinol, rhoddodd ein rhanddeiliaid lawer o adborth cadarnhaol i ni: Disgrifiwyd staff CTR fel rhai brwdfrydig, cadarnhaol, ymatebol sy'n cynnig cymorth ac arbenigedd o ansawdd uchel, ac roedd y sefydliad yn effeithlon ac wedi'i strwythuro'n dda ym marn y rhanddeiliaid. Gwerthfawrogwyd yr ymatebion hyn yn arbennig yng nghyd-destun y 18 mis diwethaf, pan drodd ein byd gwaith, fel un pawb arall, wyneb-i-waered. Roedd yna chwe phrif faes yn ymwneud â'n gweithgarwch presennol a'n ffocws ar gyfer y dyfodol y nododd y rhanddeiliaid eu bod yn bwysig i ni eu hystyried:

- 1 Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- 2 Ffocws ar Gleifion a'r Cyhoedd
- 3 Meysydd Ymarfer
- 4 Dulliau Gweithredu
- 5 Addysg a Hyfforddiant
- 6 Rheoli Adnoddau



I ddilyn mae crynodeb o'r adborth yn y 6 maes hwn ac yna sut rydym yn mynd i'r afael â nhw, naill ai o ran gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud neu'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol. Bydd nifer o'r pwyntiau'n cynnwys cyfeiriad at y Strategaeth CTR sef y strategaeth 5 mlynedd sy'n seiliedig ar ein hamcanion a'n dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020-2025.



Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Eich barn chi

Eglurwch yn glir beth mae gwahanol bobl yn y tîm yn ei wneud

Broliwch eich hunain yn fwy

Ymgysylltwch â staff clinigol i nodi cwestiynau o bwysigrwydd clinigol

Nid yw ein hastudiaeth yn dreial / nid yw'n ddigon mawr i fod o ddiddordeb i chi

Eglurwch i bobl beth rydych chi'n ei wneud a sut rydych chi'n gweithio gyda phrif ymchwilwyr allanol

Gweithgarwch cyfredol CTR yn y maes hwn

Mae'r strategaeth yn nodi cyflawniadau penodol o ran y gymysgedd o dreialon mawr ac astudiaethau datblygiadol

Mae ein hadroddiad blynyddol hefyd yn ffordd wych o ddysgu mwy am ehangder ein gwaith

Mae'r canllaw Cydweithredwyr yn llyfryn ar gyfer pob cydweithredwr ac mae'n cynnwys gwybodaeth

Ein strategaeth gyfathrebu

Mae ein Canllaw CI a'n Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar gael ar-lein: www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research/about-us

Ein hymateb ni

Sicrhau bod ein strategaeth 5 mlynedd ar gael i'r cyhoedd


Cynnal o leiaf un digwyddiad "brolio" mwy o faint bob blwyddyn

Dathlu ehangder y portffolio gan gynnwys astudiaethau llai yn ogystal â rhai mwy o faint mewn digwyddiadau, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan

Datblygu'r wefan i'w gwneud hyd yn oed yn fwy hygyrch ac addysgiadol. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiadau o waith CTR a rôl gwahanol aelodau o staff

Byddwn yn canfod sut mae'r canllaw cydweithredwyr yn cael ei ddsbarthu a'i ddefnyddio gan staff CTR a chydweithredwyr presennol

Byddwn yn ailedrych ar gynnwys y canllaw ac o bosibl yn adolygu'r cynnwys yng ngoleuni adborth gan gydweithwyr




Ffocws ar Gleifion a'r Cyhoedd



Rhowch gleifion a'r cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydych yn ei wneud

Cyfeiriwch aelodau o'r cyhoedd at ffyrdd o gymryd rhan mewn ymchwil

Mwy o bwyslais ar ganlyniadau a adroddir gan gleifion a chofnodi profiadau cleifion



Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion (CYC) yw un o brif themâu'r strategaeth CTR, gyda phenderfyniad i normaleiddio CYC ar draws pob agwedd ar ein gwaith

Ar hyn o bryd rydym yn sicrhau bod pob astudiaeth CTR yn ystyried CYC o'r cychwyn cyntaf drwy'r broses o fabwysiadu astudiaethau, gyda'r holl dimau'n gorfod manylu ar weithgarwch CYC sydd wedi'i wneud hyd yma a gweithgarwch o'r fath sydd wedi'i gynllunio. Partneriaid ymchwil lleyg yn mynychu'r cyfarfodydd mabwysiadu astudiaethau

Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau canllaw newydd ar gyfer partneriaid ymchwil - i gyflwyno'r hyn y mae gweithio gyda CTR yn ei olygu i aelodau'r cyhoedd

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyllidwyr craidd, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU i hyrwyddo cyfleoedd i bartneriaid ymchwil i'n hastudiaethau (drwy eu rhwydweithiau a'u prosesau) yn ogystal ag amrywiaeth eang o lwybrau eraill



Byddwn yn gwneud pob llwybr sydd ar gael i bartneriaid ymchwil ymuno â ni yn weladwy ar ein gwefan ac yn adolygu sut y gallwn wneud gwell defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol / cyfryngau eraill, gan gynnwys ein gwefan, ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd

Byddwn yn defnyddio'r canllaw newydd i gynllunio a gweithredu'r broses o gynnwys y cyhoedd mewn astudiaethau unigol

Byddwn yn sicrhau bod ein canllaw newydd i bartneriaid ymchwil ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan

Byddwn yn gweithio ar argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen CTR ar gynnwysoldeb mewn ymchwil sy'n cynnwys diwygio prosesau CTR i dynnu sylw at gynnwysoldeb, datblygu canllawiau newydd a sicrhau bod egwyddorion cynwysoldeb yn cael eu hymgorffori ar draws ein holl astudiaethau

Meysydd Ymarfer




Eich
barn chi

Darparu Gwasanaethau

Meysydd ymarfer clinigol
sy'n dod i'r amlwg

Bio-wybodeg

Gofal Cymdeithasol



Gweithgarwch
cyfredol CTR yn
y maes hwn

Mae cynyddu astudiaethau
gofal cymdeithasol yn darged
yn y strategaeth bresennol

Mae ein portffolio o
astudiaethau yn esblygu'n
barhaus ac yn cynnwys
meysydd newydd sy'n gyson
â'n themâu ond sydd hefyd yn
datblygu dyfnder o wybodaeth
mewn meysydd penodol



Ein
hymateb ni

Byddwn yn gweithio'n galed
ar ein cyfathrebu i sicrhau
bod partneriaid allanol a
phartneriaid newydd posibl yn
gwybod ein bod yn ymatebol
ac yn agored i feysydd sy'n
dod i'r amlwg



Dulliau Gweithredu



Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r afael â phroblemau go iawn gan gynnwys arloesi ar lefel gwasanaeth, effaith yn ogystal ag effeithiolrwydd, ymchwil drosiadol


Ehangwch ddulliau dylunio treialon arloesol

Ailwampiwch rai prosesau e.e. rhannu data, ac nid oes angen pob SOP ar gyfer pob astudiaeth

Ystyriwch ddeallusrwydd artiffisial/dysgu peirianyddol/ data mawr ar draws yr holl grwpiau ymchwil

Sicrhewch hyblygrwydd a byddwch yn barod i feirniadu eich ymarfer eich hun fel y gallwch fod yn hyblyg ac ymateb i'r hyn sydd ei angen

Dulliau digidol o gyfathrebu a rheoli astudiaethau e.e. eCRFs, gan eu bod yn ei gwneud yn haws i safleoedd a hefyd o ran cynaliadwyedd



Mae ein strategaeth yn cynnwys amcan i: “Sicrhau bod ein hymchwil wir yn newid bywydau, drwy lywio a hysbysu polisi, ymarfer a'r cyhoedd”

Rydym wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth ac mae gennym weithgorau wedi'u sefydlu i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg ddigidol, y defnydd eilaidd o ddata a dyluniadau newydd



Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol e.e. y Bartneriaeth Ymchwil Methodoleg Treialon a darparwyr data i leihau'r baich gweinyddol/optimeiddio prosesau ar gyfer rhannu data

Byddwn yn gweithio ar symleiddio prosesau ar gyfer astudiaethau arsylwadol a risg-isel

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i randdeiliaid roi sylwadau ar ein harferion drwy fforymau agored a'r arolwg bob dwy flynedd

Byddwn yn treialu proses adolygu diwedd astudiaeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd gan dimau prosiect wrth gyflwyno'r astudiaeth yn cael eu rhannu'n ehangach drwy CTR

Addysg a Hyfforddiant

Eich barn chi

Manteisiwch i'r eithaf ar eich cyfoeth o arbenigedd a chynigiwch hyfforddiant i ymchwilwyr llai profiadol, yn enwedig yn y meysydd ystadegau a dylunio treialon

Gweithgarwch cyfredol CTR yn y maes hwn

Mae hyn y tu allan i'n cylch gwaith a'n model ariannu presennol

Rydym wedi datblygu rhywfaint o hyfforddiant lle rydym wedi gallu sicrhau cyllid i wneud hynny e.e. hyfforddiant CENTRIC i ymchwilwyr gan ddefnyddio data arferol, hyfforddiant ar ddyluniadau astudiaethau dichonoldeb i'w defnyddio mewn ymchwil gofal cymdeithasol
<https://centrictraining.org/>

Ein hymateb ni

Byddwn yn gweithio ar fodel achos busnes ar gyfer cynnig cyrsiau byr




Rheoli Adnoddau



Gall symud staff ar ac oddi ar brosiectau achosi tarfu a straen i bawb

Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o'r staff cywir sydd â'r gymysgedd gywir o arbenigedd methodolegol

Sicrhewch fod gennych aelodau tîm sy'n arweinwyr yn eu maes – anogwch hyfforddiant a chynigiwch ddilyniant gyrfa addas



Mae'r strategaeth yn cynnwys amcan sy'n ymwneud â chyfluoedd arwain drwy fonitro aelodau pwyllgorau ac mae'r pwyllgor Dysgu a Datblygu yn mynd i'r afael â chyfluoedd hyfforddi staff

Rydym yn osgoi symud staff oddi ar brosiectau oni bai bod rheswm da dros wneud hynny, gan ein bod yn gwybod pa mor aflonyddgar y gall fod. Ein gallu i symud staff ar brosiectau i gymryd lle staff sy'n gadael ac ati yw un o gryfderau'r model CTR

Rhan o rôl CTR yw dod o hyd i/awgrymu'r tîm cywir, hyd yn oed os nad yw hynny o fewn CTR

Mae'r CTR wedi ymrwymo i'r broses ADP a datblygu staff, gan gefnogi ceisiadau am ddyrchafiadau a chynnig cyfluoedd mewnol fel rolau arsylwi, secondiadau, aelodaeth o grwpiau UKCRC



Byddwn yn sicrhau bod proses dryloyw ar waith ar gyfer timau prosiect mewn perthynas ag unrhyw staff sy'n symud ar/ oddi ar brosiect

Byddwn yn datblygu prosesau trosglwyddo/rhestr wirio well ar gyfer Rheolwyr Treialon a Data

Byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud y CTR yn lle gwych i staff weithio, gan gynnwys cymorth rheoli llinell a chyfluoedd datblygu gyrfa

Cysylltu â ni

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn fodlon ystyried unrhyw astudiaeth wedi'i dylunio'n dda neu syniad i'w dreialu, hyd yn oed os ydynt y tu hwnt i'w meysydd ymchwil presennol. Am ragor o wybodaeth am weithio gyda'n tîm ymchwil neu gael gwybod am y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf:

E-bost: [**ctr@caerdydd.ac.uk**](mailto:ctr@caerdydd.ac.uk)

Rhif ffôn: **029 2068 7620**

Twitter: [**@CTRCardiffUni**](https://twitter.com/CTRCardiffUni)

Blog: [**blogs.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research**](https://blogs.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research)

Gwefan: [**www.caerdydd.ac.uk/centre-for-trials-research**](http://www.caerdydd.ac.uk/centre-for-trials-research)

